

# ico.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

**Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg**

**Ebrill 2023 i Fawrth 2024**



## Rhagymadrodd

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw swyddfa rheoleiddiwr y ddeddfwriaeth ar hawliau gwybodaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae hi o dan nifer o rwymedigaethau cyfreithiol o ran y Gymraeg. Nodir y rhain yn llawn yn [hysbysiad cydymffurfio Safonau'r Gymraeg](#).

Un o'r gofynion hyn yw cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n manylu ar y camau a gymerwyd o ran cydymffurfio â'r safonau uchod. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod o Ebrill 2023 hyd at Fawrth 2024.

## Y cefndir

Mae'r ICO yn rheoleiddiwr i'r Deyrnas Unedig gyfan, gan ymdrin â Chymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Prif swyddogaeth swyddfa ranbarthol yr ICO yng Nghymru yw sicrhau bod materion sy'n benodol i Gymru yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yng ngwaith y sefydliad ehangach. Mae swyddfa Cymru hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau Cymraeg i randdeiliaid Cymraeg eu hiaith yng Nghymru.

## Hysbysiad cydymffurfio

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na chaniateir ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ICO yn dod o dan y safonau hyn ac mae copi o'n hysbysiad cydymffurfio i'w weld ar ein gwefan yn [www.ico.org.uk](#) a hynny yn Gymraeg a Saesneg.

## Y camau a gymerwyd dros y flwyddyn

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i randdeiliaid Cymraeg eu hiaith. Rydym yn falch o nodi ein bod wedi parhau i gael adborth cadarnhaol ynglŷn â'n darpariaeth Gymraeg ac er gwaethaf cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau dros y flwyddyn, mae'n gwasanaeth dwyieithog wedi bod yn ddi-dor. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus yr ICO i ymwneud â'r rhanddeiliaid yn Gymraeg.

Gwelir isod rai o'r camau allweddol a gymerwyd rhwng mis Ebrill 2023 a Mawrth 2024:

- Rydym wedi parhau i weithio ar ein rhyngwyneb dwyieithog i ddefnyddwyr ar ein gwefan, sy'n caniatáu i'r ymwelwyr ddewis y Gymraeg fel eu dewis iaith ar ein bar offer hygyrchedd a llywio'n gwefan yn Gymraeg. Lle mae cynnwys Cymraeg ar gael, bydd yn cael ei ddangos yn awtomatig. Hyd yn hyn mae 250 o dudalennau ar gael i'w gweld yn ddwyieithog.

- Rydym wedi hybu'n polisi Cymraeg corfforaethol yn fewnol ac wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth i'r staff mewnol i helpu i wella dealltwriaeth o'r iaith ac i atgoffa'r staff am rwymedigaethau'r ICO o dan Fesur y Gymraeg 2011.
- Rydym wedi datblygu sianel gyfathrebu fewnol ar gyfer staff yr ICO sy'n dysgu Cymraeg neu sydd wedi mynegi diddordeb yn yr iaith ac yn parhau i gefnogi eu taith Gymraeg drwy sesiynau galw heibio gyda staff ICO Cymru.
- Rydym wedi datblygu siwrnai defnyddiwr gwbl ddwyieithog i unigolion wneud cwyn i ni, yn Gymraeg, pan fônt yn poeni am sut mae sefydliad yn defnyddio'u data personol.
- Rydyn ni hefyd wedi datblygu teclyn dwyieithog ar-lein sy'n caniatáu i unigolion wneud Cais Testun am Weld Gwybodaeth yn Gymraeg i unrhyw sefydliad yng Nghymru drwy ein gwefan.
- Rydym wedi parhau i ddatblygu'n system ffôn ddwyieithog i ganiatáu i'r galwyr ddewis eu hiaith ar ddechrau'r alwad, gan ganiatáu iddyn nhw gael cyngor ac arweiniad yn Gymraeg. Mae'r galwyr hefyd yn gallu gadael negeseuon llais yn eu dewis iaith a chael gwarant o alwad yn ôl yn yr iaith honno.

## Ymholiadau

Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr ICO 85 o ymholiadau yn Gymraeg, sef bron 4% o'r holl ymholiadau a drafodwyd gan swyddfa'r ICO yng Nghymru. Mae'r ymholiadau hyn yn ymrannu'n 24 drwy'r ebost a 61 o ymholiadau ffôn.

## Gwaith achosion

Cafodd 11 o achosion eu cynnal yn Gymraeg ac fe ymdriniwyd â phob un yn unol â'n safonau gwasanaeth.

## Cwynion

Cawsom ddwy gwyn ynglŷn â'n darpariaeth gwasanaethau Cymraeg, ac ymdriniwyd â'r rhain a'u datrys yn unol â'n gweithdrefn gwyno Gymraeg. I weld copi o'n gweithdrefn, cliciwch [yma](#).

## Codi ymwybyddiaeth

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau drwy gynnal cyflwyniadau mewnol a sesiynau ymwybyddiaeth ar ein rhwymedigaethau Cymraeg. Mae llawer iawn o waith hefyd wedi'i wneud gyda'n Tîm Cyfathrebu gyda'r nod o wella ansawdd ac argaeledd ein darpariaeth ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi cynnwys staff sy'n siarad Cymraeg yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd prosiect yr adran Gyfathrebu i ddatblygu offer dwyieithog ar gyfer ein gwefan gyhoeddus.

Mae ein tîm ni yng Nghymru wedi datblygu e-fodiwl sy'n cynnwys gofynion y Safonau ac sy'n orfodol i bob aelod o'r staff ei gwblhau. Mae hwn wedi'i recordio ac mae ar gael ar ein tudalennau mewnwyd staff i'w weld ar unrhyw adeg.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r swyddfa yng Nghymru wedi parhau i gael cryn dipyn o gyswllt rhagweithiol gydag adrannau eraill o'r ICO mewn perthynas â'r Gymraeg, sydd wedi bod yn braf i'w nodi ac sy'n dangos effeithiolrwydd ein hymgyrch codi ymwybyddiaeth.

## **Cyfyngau Cymdeithasol / Gwefan**

Mae pob neges, postiad a chais a anfonir i'n llwyfannau yn y cyfyngau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ymateb Cymraeg yn ddi-oed. Dros gyfnod yr adroddiad cafodd pob postiad oedd yn berthnasol i Gymru'n unig eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

Mae'r holl ganllawiau ar ein gwefan allanol sy'n berthnasol i Gymru ar gael yn ddwyieithog ac yn cael eu cyhoeddi yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.

## **Hyfforddiant**

Mae'r ICO yn dal i annog ac i baratoi'r staff i allu ymdrin â rhanddeiliaid yn Gymraeg drwy gydol eu siwrnai drwy'r gwasanaeth. Bob blwyddyn, mae pob aelod o'r staff yng Nghymru yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny, a hynny gyda chymorth gan yr ICO.

## **Asesiad o sgiliau'r staff**

O'r pum aelod staff yn swyddfa Cymru, mae gan dri sgiliau Cymraeg llafar rhagorol. Anogir pob un ohonynt i ymateb i ymholiadau ysgrifenedig neu ymholiadau ebost yn Gymraeg lle maent yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud hynny heb alw ar gyfieithydd proffesiynol. Mae hyn yn helpu i ddatblygu sgiliau ysgrifenedig mewnol a hyder.

## **Recriwtio**

Ni chafodd unrhyw swyddi gwag eu hysbysebu yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

## **Costau cyfieithu**

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cafodd £7,973.20 ei wario ar gyfieithu dogfennau. Cafodd cyfanswm o 53 o ddogfennau eu cyfieithu, rhai yn fewnol. Roedd y rhain yn cynnwys dogfennau gwaith achosion, hysbysiadau i'r wasg, llythyrau at siaradwyr Cymraeg a thestun ar gyfer tudalennau gwe sy'n dod o fewn cwrpas ein prosiect gwefan Gymraeg.

## **Camau sydd ar y gweill**

- Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'n rhwymedigaethau Cymraeg yng Nghymru ac i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ein prif swyddfa yn ymwybodol o'n hymrwymiad i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn Gymraeg.
- Rydym yn anelu at ddylunio a datblygu tudalen glanio Cymraeg newydd ar ein gwefan a hwnnw'n tynnu ynghyd ganllawiau defnyddiol ynghylch hawliau gwybodaeth mewn un lle i ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith.
- Rydym yn anelu at ddylunio a chreu nifer o allbynnau dwyieithog ychwanegol sy'n wynebu'r cyhoedd yn ystod y cyfnod nesaf fel bod ymwelwyr yn gallu llywio drwy ragor o gynnwys ein gwefan yn Gymraeg.
- Rydym yn anelu at gyfarfod yn rheolaidd i sgwrsio yn Gymraeg a helpu i ategu datblygiad sgiliau llafaredd/llythrennedd Cymraeg ymysg staff eraill ar draws y sefydliad. Rydyn ni hefyd yn anelu at godi ymwybyddiaeth o'r gymuned Gymraeg fewnol yr ydyn ni wedi'i chreu.